T. Glyn Thomas, 1905–73
Gweinidog a phregethwr poblogaidd

Ganwyd T. Glyn Thomas yn Llangadog ym 1905 yn un o bump o blant y Parch. a Mrs John Elias Thomas. Yr oedd ei dad yn weinidog ar eglwysi Providence a Bethlehem. Bu farw ei rieni pan oedd yn dair ar hugain oed a bu rhaid iddo ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fagu ei frawd a'i chwaer iau. Wedi peth amser symudasant i Fronallt, Banc-y-tŵr, Dre-fach, Llanelli. Cafodd ei addysg yn ysgol elfennol Llangadog ac yna yn Ysgol Ramadeg Llandeilo ac yr oedd o'r cychwyn yn ddisgybl ymroddedig. Wedyn aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i astudio Cymraeg, Saesneg a Lladin, gan ennill gradd anrhydedd mewn Lladin.

Treuliodd dymor yr hydref 1927 yn athro yn ysgol breifat Elmhurst, Croydon, cyn symud ym mis Ionawr 1928 i fod yn athro Lladin yn Ysgol Ramadeg Dyffryn Gwendraeth lle y bu am wyth mlynedd. Yn y cyfnod hwn fe gyflwynodd ei draethawd, yn dwyn y teitl 'The local cults of ancient Latinum outside Rome, with the exception of Ostia', gan ennill gradd MA, Prifysgol Cymru. Yn ogystal â bod yn athro cymerai ran amlwg ym mywyd eglwysi Capel Seion, Dre-fach, a'r Tabernacl, Llanelli, a theimlai'n gynyddol ei fod yn cael ei alw gan Dduw i'r weinidogaeth Gristnogol. Yn nyddiau coleg gadawodd cyrddau gweddi ieuenctid Dr Peter Price, gweinidog Seion, Baker Street, Aberystwyth, eu hôl yn drwm arno, ynghyd ag arweiniad Mr John Hughes, yr athro ysgol Sul.

Traddododd T. Glyn Thomas ei bregeth gyntaf tua diwedd 1926 ym Methlehem, Llangadog, ond yn ystod ei gyfnod yn ysgol y Gwendraeth y dechreuodd bregethu o ddifrif. Aeth y sôn amdano fel pregethwr ieuanc grymus ar led trwy Gymru a thu hwnt. Pregethai fel un oedd ar dân dros ei Arglwydd a heidiai pobl i wrando arno. Yn y diwedd yr oedd yr alwad i'r weinidogaeth mor gryf fel y penderfynodd ei gyflwyno'i hun i'r gwaith. Derbyniodd alwad gan eglwys Gymraeg Barret's Grove, Stoke Newington, gogledd Llundain, ac fe'i hordeiniwyd ar 5 Tachwedd 1936. Wedi

cyfnod o dair blynedd symudodd i eglwys Annibynnol Ebeneser, Queen Street, Wrecsam, ac fe'i sefydlwyd yno ar 3 Hydref 1939. Bendithiwyd ei weinidogaeth rymus o 34 o flynyddoedd yn helaeth, a thrwy gydol ei oes bu'n bregethwr poblogaidd ac effeithiol. Gweithiai'n ddeddfol yn ei stydi bob bore gan ddilyn patrwm sefydlog wrth ddarllen y Beibl, gweddïo, myfyrio, ysgrifennu a pharatoi ar gyfer gwasanaethau. Yn y prynhawn byddai fynychaf yn ymweld â'r cleifion, a chyn gadael ward mewn ysbyty byddai bob amser yn mynd ar ei liniau i weddïo.

Yr oedd yn awdur toreithiog a chyhoeddodd gannoedd o erthyglau a deg o lyfrau. Yn eu plith yr oedd ei gyfrolau o fyfyrdodau, *Ar Ddechrau'r Dydd, Ar Derfyn Dydd, Albert Schweitzer* a *Heb Amser i Farw: Mahatma Gandhi*. Ysgrifennodd erthygl i bapur lleol bob wythnos bron yn ddi-dor am 30 mlynedd, etholwyd ef i gadair Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym 1968. Yn y cyfarfodydd blynyddol yn Soar, Pen-y-groes, Arfon, traddododd ei anerchiad grymus a chofiadwy lle y galwodd am genhadaeth gyd-enwadol yng Nghymru. O ganlyniad fe ffurfiwyd 'Cymru i Grist' a chynhaliwyd ymgyrchoedd cenhadol trwy'r wlad. Credai'n angerddol mai ein hangen pennaf yw clywed y neges am Iesu, y newyddion da sy'n rhoi gobaith ac ystyr i fywyd. Priododd ag Eleanor Roberts o Drawsfynydd ym 1949 a ganwyd iddynt ddau o feibion, sef Huw a Rhodri. Bu farw 8 Rhagfyr 1973.